# Grantiau Dan Arweiniad Ieuenctid: Canllawiau i Ymgeiswyr

Dylid darllen y nodiadau hyn cyn cyflwyno cais i Cynllun Grantiau Dan Arweiniad Pobl Ifanc. Yn ogystal, mae'n ddoeth edrych ar y nodiadau hyn yn ystod y broses ymgeisio.

**Rydym yn argymell cysylltu â chynrychiolydd CCGC cyn llenwi neu gyflwyno'r cais:**

- E-bost: grants@cvsc.org.uk
- Ffôn: 01492 523845

**Am ragor o help neu gyngor, cysylltwch â Josephine Hastings:**

- E-bost: josephinehastings@cvsc.org.uk
- Ffôn: 01492 523847

## Beth yw'r Cynllun Grant Dan Arweiniad Ieuenctid?

- Nod y cynllun Grant Dan Arweiniad Ieuenctid yw **cefnogi amrywiaeth o brosiectau a gweithgareddau gwirfoddoli bach**, sy'n cael eu harwain a'u cynnal gan **bobl ifanc yng Nghonwy.**

- Pwrpas y grant yw **grymuso pobl ifanc i ddatblygu mentrau eu hunain**; cymryd rôl weithredol yn eu cymunedau a chynnwys/recriwtio pobl ifanc i gymryd rhan.

- Mae grantiau o **hyd at £2,000** ar gael i **gefnogi gwirfoddoli neu sefydlu gweithgaredd gwirfoddoli.**

- Dewisir ac argymhellir y ceisiadau gan **banel o bobl ifanc rhwng 14-25 oed**.

## Pwy All Ymgeisio?

- **Rhaid i'r cais gael ei wneud gan berson ifanc (14-25 oed) ond gellir cael cefnogaeth gan oedolyn o'r sefydliad.**

- **Rhaid i ymgeiswyr fod wedi'u lleoli yn Sir Conwy, a rhaid iddynt fod yn gysylltiedig â sefydliad gwirfoddol neu grŵp cymunedol, sydd a:**

1. **Cyfansoddiad cyfreithiol.** Mae'n rhaid bod ganddynt ddogfen lywodraethol, sydd wedi ei llofnodi a'i mabwysiadu gan y grŵp.
2. **Yn annibynnol o'r llywodraeth a'r sector breifat.**
3. **Yn berchen ar gyfrif banc ei hun (yn enw'r grŵp), sy'n gofyn am o leiaf 2 lofnod i awdurdodi trafodion.**

- ***Gallai'r cais gael ei wneud gan grŵp anffurfiol o bobl ifanc a*** *bydd ystyriaeth yn cael ei roi i* ***dalu'r grant i sefydliad cymwys fydd yn eich cefnogi*** *neu mewn amgylchiadau eithriadol bydd y Ganolfan Wirfoddoli yn ystyried talu anfonebau'n uniongyrchol i gyflenwyr.*

- *Dim ond un grant fydd yn cael ei ganiatáu i bob grŵp o fewn y cyfnod o 12 mis.*

## Beth sy'n Rhaid i Mi Gynnwys yn y Cais?

Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr lenwi **ffurflen gais**, ac mae'n rhaid iddynt ddarparu:

- Copi wedi'i lofnodi o'u **cyfansoddiad** neu set o reolau.
- Copi o **ddatganiad banc** diweddar y grŵp / sefydliad cefnogol.
- Ieiaf dau **ddyfyniad** neu amcangyfrifon ysgrifenedig gan unrhyw gyflenwyr.

## Pa Feini Prawf y Mae'n Rhaid i'r Prosiect eu Bodloni?

Rhaid i'r prosiect gyfrannu tuag at o leiaf un o **Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015):**

1. Cymru lewyrchus
2. Cymru gydnerth
3. Cymru sy'n fwy cyfartal
4. Cymru iachach
5. Cymru o gymunedau cydlynys
6. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
7. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Anogir ymgeiswyr i adlewyrchu ar **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) Pum Ffordd o Weithio,** wrth ddylunio eu prosiect, ac adrodd ar y camau cadarnhaol y maent yn eu cymryd tuag at y rhain.

Cliciwch ar y linc isod am fwy o wybodaeth.

Y dulliau o weithio yw- Hirdymor, Integreiddio, Cynnwys, Cydweithio, ac Atal.

## Amserlenni'r Grant

- Rhaid i bob prosiect gael ei gwblhau a'i gyfrif erbyn **31 Awst 2026**. Rhaid ad-dalu unrhyw gyllid nad yw'n cael ei wario erbyn y dyddiad hwnnw.

- Bydd y ceisiadau'n cau **23 Mai 2025.**

- Bydd ymgeiswyr yn derbyn e-bost yn cadarnhau derbyn eu cais a byddant yn **cael gwybod am y canlyniad o fewn 4 wythnos i'r dyddiad cau.**

## Beth Fydd yn Digwydd Os yw'r Grant yn Cael ei Ddyfarnu?

Bydd yr unigolyn cyswllt ar gyfer y prosiect yn derbyn llythyr / ebost yn amlinellu penderfyniad y panel, ynghyd â llythyr gwobrwyo a ffurflen derbyn grant.

**Os yw'n cael cynnig cyllid, rhaid i ymgeiswyr gytuno i:**

- Gyflwyno adroddiad byr gyda derbynebau ar gyfer yr holl wariant.
- Gwario'r grant yn union fel y nodir yn y cais oni bai bod cytundeb blaenorol gan CVSC yn cael ei ganiatáu.
- Rhoi cyhoeddusrwydd i gyfraniad Llywodraeth Cymru i'r prosiect.
- Cyflwyno ffotograffau o waith y prosiect.

Sicrhau bod y grant yn cael ei wario a bod yr adroddiadau a'r derbynebau a'r dogfennau eraill yn cael eu cwblhau a'u dychwelyd i CVSC erbyn **31 Awst 2026.**

**Siaradwch â swyddog CCGC cyn cyflwyno eich cais.**

**DIOGELU DATA AC AWDURDODI DEFNYDD**

Bydd Cymorth Gwirfoddol Conwy Cymunedol a (CCGC) sy'n gweithredu ar ran CGGC, yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol er mwyn prosesu eich cais am arian, a bydd yn cael ei gofnodi ar gronfa ddata a ddefnyddir gan CCGC a'i bartneriaid Cymorth Trydydd Sector Cymru (gwybodaeth bellach am ein hysbysiad preifatrwydd ar gael o thirdsectorsupport.wales.) Bydd y wybodaeth yn cael ei gadw dros gyfnod y prosiect ac wedyn yn cael ei ddinistrio yn ddiogel.

**Dychwelwch y Ffurflen Gais wedi'i llenwi a'r dogfennau ategol at:** grants@cvsc.org.uk

Tîm Grantiau, CCGC, 7 Ffordd Rhiw, Bae Colwyn, Conwy, LL29 7TG

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government